

**Y Cyngor Ymgynghorol  
Sefydlog ar Addysg Grefyddol  
(CYSAG)  
Sir Gaerfyrddin**

**Adroddiad Blynyddol  
2016-17**



## Rhestr o'r Cynnwys

Gwybodaeth am CYSAG	3
Aelodaeth CYSAG Sir Gaerfyrddin	4
Y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod 2016 - 2017	5
<b>Addysg Grefyddol (AGr)</b>	<b>6</b>
Maes Llafur Cytûn Sir Gaerfyrddin	6
Y sefyllfa bresennol	6
Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r cwricwlwm	6
Cefnogi a monitro'r gwaith o weithredu'r Maes Llafur Cytûn	7
Dadansoddiad o ddata'r arholiadau allanol mewn Astudiaethau Crefyddol - Haf 2016	8
Y camau a gymerwyd ar sail canlyniadau'r arholiadau allanol	9
Manylebau diwygiedig ar gyfer arholiadau allanol Astudiaethau Crefyddol	10
Dadansoddiad o adroddiadau arolygiadau Estyn ar gyfer 2016-17	11
Adolygiad thematig Estyn ar AGr yn CA2 a CA3 - Hydref 2017	11
Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer AGr	12
Adnoddau addysgu	13
Rhwydwaith Hwb ERW ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol	13
<b>Addoli ar y Cyd</b>	<b>15</b>
Cyngor ynghylch addoli ar y cyd	15
Monitro addoli ar y cyd – adroddiadau arolygiadau Estyn 2016-17	15
Penderfyniadau	15
<b>Materion Eraill</b>	<b>16</b>
Aelodaeth o Gymdeithas CYSAGau Cymru	16
Cynhadledd Chweched Dosbarth Sir Gaerfyrddin ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost	16
Hanes Mudiad Addysg Grefyddol/Cristnogaeth Cymru 1965-2015	17
Y Parch Wyn Maskell	17

## **Gwybodaeth am CYSAG**

### **Dyletswydd i sefydlu CYSAG**

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn ei ardal leol.

### **Aelodaeth CYSAG**

Mae angen i CYSAG gynnwys cynrychiolwyr o blith y canlynol:

- enwadau Cristnogol a chrefyddol eraill sydd, ym marn yr Awdurdod Lleol, yn adlewyrchu traddodiadau crefyddol yr ardal yn briodol
- cymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon
- yr Awdurdod Lleol

Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod aelodau'r grwpiau yn cael eu penodi a'u bod yn gynrychioladol.

### **Swyddogaethau CYSAG**

- Cyngori'r Awdurdod Lleol ynghylch addoli mewn ysgolion a'r addysg grefyddol a roddir yn unol â'r maes llafur cytûn, gan gynnwys dulliau addysgu, cyngor ar ddeunyddiau a darparu hyfforddiant i athrawon;
- Ystyried a ddylid argymhell i'r Awdurdod Lleol y dylai ei faes llafur cytûn presennol gael ei adolygu drwy alw Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig;
- Ystyried ceisiadau gan ysgolion i ddod i benderfyniad (i gael eu heithrio o'r gofyniad i addoli crefyddol fod yn "Gristnogol");
- Adrodd yn ôl i'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru ar ei weithgareddau'n flynyddol.

## Aelodaeth CYSAG Sir Gaerfyrddin 2016-17

### Awdurdod Addysg

Y Cynghorydd Gwyneth Thomas	(Cadeirydd)
Y Cynghorydd Jean Lewis	
Y Cynghorydd Edward G. Thomas	(cyn Mai 2017)
Y Cynghorydd Jan Williams	(cyn Mai 2017)
Y Cynghorydd Shahana Najmi	(ar ôl Mai 2017)
Y Cynghorydd Jim Jones	(ar ôl Mai 2017)

### Enwadau Crefyddol\*

Y Parch Aled Jones	Cyngor yr Eglwysi Rhyddion (Is-gadeirydd)
Mrs Christine Rees	Cyngor yr Eglwysi Rhyddion
Y Parch John Talfryn Jones	Cyngor yr Eglwysi Rhyddion
Mrs Rachel Lawrence	Yr Eglwys Gatholig
Mrs Clare Williams	Yr Eglwys yng Nghymru

### Cynrychiolwyr yr Athrawon

Miss Jane Thomas	
Mrs Delyth Rees	
Miss Valerie Davies	(cyn Ionawr 2017)
Mrs Wendy Jones	(ar ôl Ionawr 2017)

### Aelodau Cyfetholedig

Miss Meinir Wynne Loader  
Dr Geraint Davies  
Mrs Helen Gibbon

\* **Cynrychiolaeth Mwslimaidd** Cysylltodd CYSAG â Chyngor Mwslimaidd Cymru yn 2016 am fanylion grŵp Mwslimaidd priodol yn Sir Gaerfyrddin a allai enwebu cynrychiolydd Mwslimaidd ar gyfer CYSAG. Awgrymwyd 'Cymdeithas Ddiwylliannol Islamaidd Gorllewin Cymru' yng Nghaerfyrddin. Yn dilyn hynny, fe wnaeth Ymgynghorydd Her Cysylltiol Addysg Grefyddol yr ALL gysylltiadau gwerthfawr gyda'r Gymdeithas, gan fynychu amrywiol gyfarfodydd a digwyddiadau yn y mosg. Gwahoddwyd athrawon i benwythnos agoriad swyddogol mosg Caerfyrddin yn ddiweddarach yn 2016, mae disgyblion o nifer o ysgolion Sir Gaerfyrddin wedi ymweld â'r mosg ac mae cynrychiolwyr y Gymdeithas wedi siarad ag athrawon ar ddigwyddiadau hyfforddi mewn swydd Addysg Grefyddol. Serch hynny, nid yw'r Gymdeithas wedi enwebu cynrychiolydd ar gyfer CYSAG Sir Gâr hyd yn hyn.

## **Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod 2016-2017**

Cyfarfu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Sir Gaerfyrddin ddwywaith yn ystod y cyfnod hwn:

8<sup>fed</sup> Tachwedd 2016

19<sup>eg</sup> Medi 2017

Cafodd y trydydd cyfarfod ei ganslo oherwydd amgylchiadau oedd y tu hwnt i'n rheolaeth. Fodd bynnag, cafodd y materion sy'n ymwneud â CYSAG yn ystod y cyfnod hwn eu trafod gyda'r cadeirydd ac aelodau eraill lle bo hynny'n berthnasol.

Isod, ceir crynodeb o'r prif faterion a drafodwyd ym mhob cyfarfod unigol:

### **Y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8<sup>fed</sup> Tachwedd 2016**

- Cymorth gan ERW ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol - cyflwyniad gan Tonia Antoniazzi, Arweinydd Dysgu ERW ar gyfer pynciau all-graidd TGAU
- Trafodaeth ar y fanyleb Astudiaethau Crefyddol TGAU ddiwygiedig
- Y wybodaeth ddiweddaraf am gwricwlwm newydd Cymru
- Hyfforddiant AG i athrawon a ddarperwyd gan yr Awdurdod Lleol
- Paratoi ar gyfer cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yn Sir Gaerfyrddin ar 18<sup>fed</sup> Tachwedd
- Y wybodaeth ddiweddaraf gan Gymdeithas CYSAGau Cymru

### **Y cyfarfod ar 19<sup>eg</sup> Medi 2017**

- Dadansoddi data'r arholiadau allanol mewn Astudiaethau Crefyddol - Safon Uwch a TGAU
- Dadansoddi adroddiadau arolygiadau Estyn ar ysgolion Sir Gaerfyrddin yng nghyswllt Addoli ar y Cyd ac Addysg Grefyddol
- Y wybodaeth ddiweddaraf a thrafodaeth ynghylch datblygiadau o ran cwricwlwm newydd Cymru
- Y wybodaeth ddiweddaraf am gymorth ERW/Sir Gaerfyrddin ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol
- Adolygiad thematig Estyn ar Addysg Grefyddol yn CA2 a CA3.
- Cynhadledd Chweched Dosbarth ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust 2017
- Y wybodaeth ddiweddaraf gan Gymdeithas CYSAGau Cymru

# **ADDYSG GREFYDDOL (AGr)**

## **Maes Llafur Cytûn Sir Gaerfyrddin**

### **Y sefyllfa bresennol**

Cafodd Maes Llafur Cytûn presennol Sir Gaerfyrddin ei fabwysiadu ym mis Mawrth 2009 i'w weithredu o fis Medi 2009 ymlaen. Mae'n seiliedig ar Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AGr 3-19 a luniwyd gan APADGOS (a Llywodraeth Cynulliad Cymru), ac a addaswyd rhywfaint at anghenion ysgolion a disgyblion yn Sir Gaerfyrddin. Dosbarthwyd copïau o'r Maes Llafur Cytûn i'r holl ysgolion yn yr Awdurdod Lleol, fel copi caled ar ffurf llyfr a chopi electronig ar CD. Hefyd mae ar gael ar yr adran AGr o Amdro, gwefan Sir Gaerfyrddin, naill ai i'w weld yno neu ei lawrlwytho.

Mae'n ofyniad statudol i adolygu Meysydd Llafur Cytûn AGr bob pum mlynedd ac i'w diwygio os oes angen. Fodd bynnag, yn dilyn cyngor gan Gymdeithas CYSAGau Cymru, mae CYSAG wedi cynghori'r Awdurdod Lleol i oedi rhag diwygio'r Maes Llafur yng ngoleuni yr adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, fel y gellir gwneud unrhyw newidiadau yn unol â Chwricwlwm newydd Cymru.

### **Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r cwricwlwm**

Mae aelodau CYSAG wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran datblygu cwricwlwm newydd Cymru. Roeddent yn falch o gael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y byddai AGr yn parhau'n ofyniad statudol ar gyfer y cwricwlwm, yn unol ag Argymhelliaid 9 Adroddiad Donaldson. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y bydd AGr yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, ond yn amlwg o fewn y maes hynny, ac yn gyffredinol bydd pynciau yn parhau i fod yn bwysig yn y fframwaith newydd.

Mae aelodau wedi darllen a thrafod y ddogfen gan Lywodraeth Cymru, 'Cwricwlwm newydd i Gymru: yr hanes hyd yn hyn...', sy'n nodi'r cynnydd yn y camau datblygu Llinyn 1 a Llinyn 2. Maent yn hyderus bod gan AGr ran bwysig o ran datblygu'r pedwar diben sydd wrth wraidd y cwricwlwm, ac maent, ar hyn o bryd, yn fodlon ar y datganiadau bras sy'n cyfeirio at agweddau AGr o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau - e.e. bydd disgyblion yn "cymryd rhan mewn profiadau dysgu am hawliau, gwerthoedd, moeseg, credoau, crefydd, athroniaeth ac ysbrydolrwydd." Er hynny, maent yn cydnabod bod Llinyn 1 a 2 yn gamau datblygu lefel uchel ac mai Llinyn 3 fydd y cam pwysig ar gyfer AGr, pan gaiff pynciau/disgyblaethau unigol eu hystyried yn fanwl. Penderfynwyd monitro'r cam hwn yn ofalus.

Roedd yr aelodau yn falch bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu anfon y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r cwricwlwm at CYSAGau bob tymor, a gofyn am eu barn. Roeddent yn falch o nodi bod y diweddariad cyntaf (diwedd tymor yr haf) yn cydnabod CYSAGau fel partneriaid allweddol yn y broses o ddatblygu Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, a dywedwyd y byddent yn cydweithio'n agos â chydweithwyr Gymdeithas CYSAGau Cymru pan fydd y gwaith o ddatblygu manylion y cwricwlwm yn dechrau yn ystod tymor yr hydref 2017. Mae grŵp cynllunio eisoes wedi'i sefydlu, sy'n cynnwys cynrychiolwyr

o Gymdeithas CYSAGau Cymru, Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac Estyn. Mae CYSAG wedi anfon ymateb at Lywodraeth Cymru yn mynegi ei safbwynt ynghylch y datblygiadau hyd yn hyn, yn unol â'r cais.

## **Cefnogi a monitro'r gwaith o weithredu'r Maes Llafur Cytûn**

Mae rôl Mrs Mary Parry, un o Ymynghorwyr Her Cysylltiol yr Awdurdod Lleol, yn cynnwys cyfrifoldeb dros AGr. Mae'n gweithredu fel swyddog proffesiynol i CYSAG ac yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r aelodau fel y gallant gyflawni eu rôl yn effeithiol. Mae hi'n cefnogi ac yn monitro'r gwaith o weithredu'r Maes Llafur Cytûn, er enghraifft drwy'r canlynol:

- darparu cyngor a datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon
- creu a thynnu sylw at adnoddau a dogfennau perthnasol gan gynnwys dogfennau cynllunio enghreifftiol a deunyddiau dwyieithog ar gyfer yr ystafell ddosbarth
- ymweld ag ysgolion – hi ei hun yn ogystal ag aelodau eraill o dîm ymgynghorol yr Awdurdod Lleol
- rhannu enghreifftiau o arferion da
- dadansoddi canlyniadau arholiadau allanol
- dadansoddi adroddiadau arolygu Estyn a dilyn trywydd unrhyw faterion a godwyd.

Ymhelaethir ar y pwyntiau hyn yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Arholiadau allanol Astudiaethau Crefyddol

### Dadansoddiad o ganlyniadau arholiadau allanol - haf 2016

Ystyriodd CYSAG yr ystadegau ar gyfer canlyniadau'r arholiadau allanol yn y cwrs llawn a'r cwrs byr TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol a'r cwrs TAG Safon Uwch a Safon Uwch Gyfrannol mewn Astudiaethau Crefyddol. Ystyriwyd canlyniadau pob ysgol unigol yn ogystal â chrynodeb yr Awdurdod Lleol ar gyfer y pwnc.

### Data'r cwrs llawn a'r cwrs byr TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o ganlyniadau Sir Gaerfyrddin:

<b>TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL 2016 SIR GAERFYRDDIN / CYMRU</b>					
		Cwrs Byr		Cwrs Llawn	
		Sir Gaerfyrddin	Cymru	Sir Gaerfyrddin	Cymru
Cyfanswm y cofrestrïadau		753	11,666	320	11,051
Nifer y Merched		397	5,301	186	6,468
Nifer y Bechgyn		356	6,365	134	4,583
Canran Graddau Pawb	% A*-A	34.00%	11.43%	39.38%	27.80%
	% A*-C	69.59%	45.35%	81.56%	71.98%
	% A*-G	97.34%	90.36%	99.38%	97.76%
Canran Graddau Merched	% A*-A	39.80%	15.92%	48.92%	33.81%
	% A*-C	75.57%	53.63%	82.80%	78.71%
	% A*-G	98.99%	93.25%	99.00%	98.79%
Canran Graddau Bechgyn	% A*-A	27.53%	7.70%	26.12%	19.31%
	% A*-C	62.92%	38.46%	79.85%	62.49%
	% A*-G	95.51%	88.33%	99.25%	96.29%
% gwahaniaeth rhwng bechgyn a merched	% A*-A	12.27%	8.22%	22.81%	14.50%
	% A*-C	12.65%	15.17%	2.94%	16.22%
	% A*-G	3.49%	4.91%	-0.25%	2.50%



## Data TAG Safon Uwch

<b>TAG SAFON UWCH ASTUDIAETHAU CREFYDDOL 2016</b>			
<b>SIR GAERFYRDDIN A CHYMRU</b>			
		<b>Sir Gaerfyrddin</b>	<b>Cymru</b>
Cyfanswm y cofrestrïadau		82	1446
Nifer y Merched		56	1107
Nifer y Bechgyn		26	339
Canran Graddau Pawb	% A*-A	24.39%	18.33%
	% A*-C	84.15%	78.91%
	% A*-E	100%	99.10%
Canran Graddau Merched	% A*-A	25.00%	18.70%
	% A*-C	83.93%	79.49%
	% A*-E	100%	99.10%
Canran Graddau Bechgyn	% A*-A	23.08%	17.11%
	% A*-C	84.62%	76.99%
	% A*-E	100%	99.12%
% gwahaniaeth rhwng bechgyn a merched	% A*-A	1.92%	1.59%
	% A*-C	-0.69%	2.50%
	% A*-E	0%	-0.02%

### Dadansoddiad o'r canlyniadau

Yn anffodus, nid yw data gwerth ychwanegol Ymddiriedolaeth Teulu Fischer ar gael mwyach i Sir Gaerfyrddin ac felly dim ond data crai y gellid ei ddefnyddio eleni. Roedd aelodau yn falch iawn o'r data cymharol rhwng yr Awdurdod Lleol a Chymru, a ddangosodd fod disgyblion Sir Gaerfyrddin yn perfformio'n well na disgyblion Cymru gyfan ym mhob agwedd - ac yn aml gan ganran sylweddol.

### Y camau a gymerwyd ar sail canlyniadau'r arholiadau allanol

- i. Estynnodd yr aelodau longyfarchiadau i'r holl fyfyrwyr a lwyddodd yn eu harholiadau Astudiaethau Crefyddol, a hefyd i'r athrawon am eu gwaith caled a'u hymroddiad.
- ii. Mae Ymynghorydd Her Cysylltiol AGr yr Awdurdod Lleol wedi ateb cwestiynau a rhoi cyngor i athrawon ynghylch yr arholiadau allanol er mwyn helpu ysgolion i godi safonau. Mae hyn wedi cynnwys trafodaethau ag adrannau AGr unigol pan geisir cyngor a hefyd yn ystod cyfarfodydd a hyfforddiant Penaethiaid AGr yr Awdurdod Lleol, a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

## **Manylebau diwygiedig ar gyfer arholiadau allanol Astudiaethau Crefyddol**

### **Safon Uwch**

Rhodddwyd gwybod i'r aelodau y dechreuwyd dysgu'r arholiadau Safon Uwch Gyfrannol newydd ar gyfer Astudiaethau Crefyddol ym mis Medi 2016 ac arholwyd am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2017. Mynegodd cynrychiolwyr athrawon eu pryderon ynghylch y fanyleb hon, gan gynnwys: mwy o gynnwys sy'n golygu ei bod yn anodd iawn i gwblhau'r cwrs mewn pryd ar gyfer arholiadau mis Mehefin; dewisiadau cyfyng gan fod athroniaeth crefydd, a chrefydd a moeseg yn orfodol ac yn cynnwys dau draean o'r arholiad (nododd yr athrawon nad oedd y mwyafrif helaeth o'u disgyblion yn dymuno astudio athroniaeth, a byddai'n well ganddynt astudio crefydd arall - roeddent wedi dewis pwnc o'r enw 'Astudiaethau Crefyddol' ond dim ond un grefydd oeddent yn gallu ei hastudio); diffyg adnoddau a gyhoeddwyd mewn pryd ar gyfer dechrau'r cwrs - sefyllfa a oedd yn waeth ar gyfer myfyrwyr a oedd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd cynrychiolwyr yr athrawon fod athrawon yn pryderu hyd yn oed yn fwy am y fanyleb 'A2' a gaiff ei dysgu ym mis Medi 2017.

### **TGAU**

Ystyriodd yr aelodau fformat a chynnwys y fanyleb TGAU ddiwygiedig ar gyfer Astudiaethau Crefyddol, a fyddai'n cael ei chyflwyno o fis Medi 2017, ar ôl cael ei gohirio am flwyddyn. Mynegodd cynrychiolwyr yr athrawon eu pryderon mai dim ond un fanyleb sydd ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol erbyn hyn ac felly ni fyddai modd astudio'r cwrs byr yn y gwersi AGr statudol, yn ogystal ag astudio'r cwrs llawn fel pwnc dewisol. Nodwyd er byddai'r maes llafur yn addas ar gyfer disgyblion sydd â diddordeb academiaidd mewn Astudiaethau Crefyddol, roedd ganddynt bryderon difrifol o ran a fyddai'r fanyleb newydd yn addas ar gyfer gwersi AGr statudol. Roedd llawer mwy o gynnwys a llai o bwyslais ar faterion cyfoes ac ar safbwyntiau personol ac ymatebion y disgyblion i'r materion hyn - yr agweddau yr oedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu mwynhau ac yn eu gwerthfawrogi oherwydd roeddent yn berthnasol i'w bywydau eu hunain. Mae'r agweddau hyn yn rhan hanfodol o AGr, er nad ydynt yn rhan hanfodol o Astudiaethau Crefyddol. Roedd yr aelodau yn pryderu y byddai'r adfywiad mawr yn TGAU Astudiaethau Crefyddol yn ystod yr 20 mlynedd ddiwethaf yn dod i ben - ar hyn o bryd, mae mwy o ddisgyblion yn sefyll TGAU Astudiaethau Crefyddol na TGAU mewn unrhyw bwnc all-graidd arall. Roedd yr aelodau yn pryderu, os nad oedd myfyrwyr yn gallu sefyll arholiad ar ddiwedd y gwersi AGr statudol yn CA4, y byddai'r safonau yn dirywio'n sylweddol, fel y gwelir yn adroddiad Estyn, 'AGr mewn Ysgolion Uwchradd' (2013).

### **Ymateb CYSAG**

Roedd aelodau CYSAG yn pryderu pan glywsom am y problemau a wynebai fyfyrwyr ac athrawon o ran y manylebau arholiadau newydd. Roeddent yn pryderu am yr effaith y câi ar y myfyrwyr presennol a hefyd ar y nifer sy'n dewis Astudiaethau Crefyddol ar gyfer TGAU a Safon Uwch yn y dyfodol. Mae'r Ymgynghorydd Her Cysylltiol ar gyfer AGr wedi mynegi pryderon athrawon Sir Gaerfyrddin ac aelodau CYSAG i'r swyddogion perthnasol yn CBAC a Chymwysterau Cymru, a hefyd i Gymdeithas CYSAGau Cymru. Yn ogystal, mae'r Cynghorydd Edward Thomas wedi mynegi'r pryderon i Gyfarwyddwr Cwricwlwm CBAC. Nid yw'r problemau wedi'u datrys hyd yn hyn.

## **Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygiadau Estyn Ebrill 2016 - Mawrth 2017**

Mae CYSAG wedi parhau i fonitro darpariaeth AGr yn ysgolion yr Awdurdod Lleol drwy archwilio adroddiadau arolygiadau Estyn am y cyfnod Ebrill 2016 - Mawrth 2017, er y cydnabuwyd y byddai unrhyw gyfeiriad at AGr yn gryno, oherwydd natur yr adroddiadau ar hyn o bryd. Cafodd deuddeg o ysgolion Sir Gaerfyrddin eu harolygu gan Estyn yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hyn yn cynnwys deg ysgol gynradd, un ysgol uwchradd ac un ysgol anghenion arbennig ar gyfer plant ag anawsterau dysgu.

Roedd yr holl sylwadau a gyfeiriai at AGr yn gadarnhaol. Nid oedd Estyn wedi tynnu sylw at unrhyw fethiant o ran gofynion statudol neu unrhyw ddiffygion ar gyfer y pwnc. Roedd y sylwadau yn cynnwys:

- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.
- Mae'r disgyblion yn llithrddarllen am wybodaeth yn fedrus i gywain gwybodaeth, er enghraifft wrth ymchwilio am wybodaeth am y Pesach yn ystod gwersi addysg grefyddol

### **Gwaith dilynol ar y diffygion a nodwyd yn adroddiadau arolygu Estyn y llynedd**

Y llynedd, nododd Estyn ddiffygion o ran AGr mewn dwy ysgol gynradd. Mae Ymgynghorydd Her Cysylltiol yr Awdurdod Lleol ar gyfer AGr wedi gweithio gyda'r ysgolion hyn i ymdrin ag argymhellion Estyn. Roedd yr aelodau'n falch o glywed, pan gafodd dwy ysgol eu harolygu eto gan Estyn eleni, y nodwyd yn adroddiad un o'r ysgolion fod cynnydd da iawn wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r mater, ac yn yr ysgol arall nodwyd ei bod wedi gwneud cynnydd da. Mae un o'r ysgolion, Ysgol Bro Banw, wedi cyflawni Marc Safon Gwobr Efydd ar gyfer AGr ers hynny. Estynnodd yr aelodau longyfarchiadau i'r ysgol, a gwahodd y cydlynnydd AGr, Mrs Louise Rees, a chydlynnydd AGr y Cyfnod Sylfaen, Mrs Sarah Pierce, i roi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf.

### **ADOLYGIAD THEMATIG ESTYN AR AGr YN CA2 A CA3 - HYDREF 2017**

Roedd yr aelodau'n falch o ddeall y byddai adolygiad thematig Estyn ar AGr yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf a byddai arolygwyr yn ymweld ag oddeutu 20 o ysgolion ledled Cymru yn ystod tymor yr hydref, yn ogystal â ffonio rhai ysgolion. Byddent hefyd yn gofyn am brofiadau a safbwyntiau pob CYSAG, drwy holiadur. Roedd aelodau yn credu y gallai'r adolygiad thematig hwn roi gwybodaeth ddefnyddiol iawn am ddarpariaeth a safonau AGr mewn ysgolion, ac roeddent yn gobeithio y byddai'n rhoi neges gadarnhaol ynghylch statws AGr yn y cwricwlwm. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod tymor yr haf 2018.

# Hyfforddiant Addysg Grefyddol i Athrawon

## Cyrsiau Hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus 2016-2017

Daw'r cyllid ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus i athrawon o Grant Gwella Addysg Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd cyrsiau hyfforddiant canolog AGr ar gyfer athrawon cynradd ac uwchradd yn ystod y flwyddyn academaidd. Darparwyd y cyrsiau hyn gan Ymgynghorydd Her Cysylltiol AGr yr Awdurdod Lleol, Mrs Mary Parry.

### Ysgolion cynradd

Cafodd cwrs hyfforddiant canolog, 'Darparu Addysg Grefyddol Effeithiol yn CA2' ei gynnal ar gyfer athrawon Sir Gaerfyrddin ym mis Medi 2016. Nodau'r cwrs oedd:

- Ystyried cynllunio ar gyfer AGr effeithiol er mwyn cynnwys gofynion statudol Maes Llafur Cytûn Sir Gaerfyrddin, ac agweddau ysgol gyfan megis y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a phedwar diben y cwricwlwm diwygiedig (Donaldson).
- Archwilio strategaethau addysgu a dysgu ymarferol mewn AGr, ynghyd ag adnoddau, er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr, datblygu eu sgiliau a chodi safonau.
- Trafod a rhannu arferion da.

Ar gyfer sesiwn olaf y diwrnod, gwnaeth yr athrawon ymweld â'r mosg a oedd newydd agor yng Nghaerfyrddin i weld yr adeilad ac i siarad â rhai o'r arweinwyr yno am wahanol agweddau ar Islam. Hefyd, rhoddodd hyn y cyfle iddynt drefnu ymweliad ar gyfer eu disgyblion, ac yn sgil hynny, mae nifer o ysgolion wedi ymweld â'r mosg.

### Ysgolion uwchradd

Mae penaethiaid adran AGr wedi parhau i gwrdd ddwywaith eleni er mwyn cael hyfforddiant a rhannu arferion da. Dyma'r prif agweddau yr ymdriniwyd â hwy:

- Cwricwlwm newydd Cymru, a rhan AGr ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau
- Manyleb ddiwygiedig Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a TGAU
- Cymorth gan ERW ar gyfer adnoddau TGAU drwy wefan Hwb, gam gynnwys cyflwyniadau gan Tonia Antonazzi, Arweinydd Dysgu ERW ar gyfer y pynciau all-graidd ac Alex Roe, un o'r Ymarferwyr Arweiniol, ynghylch creu a rhannu adnoddau

### Cyngor a chymorth

Mae Ymgynghorydd Her Cysylltiol yr Awdurdod Lleol ar gyfer AGr hefyd wedi darparu cyngor a chymorth ar gyfer AGr drwy ymweld ag ysgolion ac ateb cwestiynau ynghylch y pwnc drwy e-bost a thros y ffôn. Mae cyngor o'r fath wedi cynnwys cynllunio, dulliau addysgu ac adnoddau addysgu.

## Adnoddau addysgu

### 1. Ysgolion cynradd

Yn dilyn cwrs hyfforddiant AGr i athrawon CA2 Sir Gaerfyrddin fis Medi diwethaf, lanlwythodd Mrs Mary Parry yr adnoddau a ddsbarthwyd neu y cyfeiriwyd atynt ar y diwrnod, i'r dudalen 'sharepoint' ar fewnwyd yr ALL. Gall yr holl ysgolion yn y sir ddefnyddio'r rhain. Yn ddiweddarach, lanlwythodd hi amrywiaeth o adnoddau AGr y Cyfnod Sylfaen i'r wefan hon hefyd.

### 2. Ysgolion uwchradd

Mae llawer helaeth o ddeunydd Saesneg wedi cael ei lanlwytho eleni ar wefan Hwb ERW ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol. Mae ERW wedi rhoi sicrwydd y bydd mwy o ddeunydd Cymraeg yn cael ei lanlwytho yn y dyfodol agos (gweler yr adran isod: 'Rhwydwaith Hwb ERW ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol').

### 3. Arteffactau

Mae system fenthyca arteffactau crefyddol yr ALL yn dal i fod ar waith ac mae athrawon ysgolion cynradd yn gallu benthg amrywiaeth o arteffactau sy'n gysylltiedig â'u cynlluniau gwaith. Fe'u cedwir yn Amgueddfa Caerfyrddin yn Abergwili. Darperir gwybodaeth gefndir ddwyieithog am yr arteffactau hyn i ddisgyblion ac athrawon ar fewnwyd AGr y sir: <http://credo.ysgolccc.org.uk> Mae'r wefan hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth am agweddau eraill sy'n ymwneud ag AGr yng Nghymru.

### Rhwydwaith Hwb ERW ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol

Yng nghyfarfod tymor yr hydref, hysbyswyd yr aelodau fod ERW, consortiwm addysg rhanbarth De, Gorllewin a Chanolbarth Cymru, wedi sefydlu rhwydweithiau ar-lein ar gyfer pynciau all-graidd TGAU ar Hwb, gwefan addysg Llywodraeth Cymru. Y nod oedd cael athrawon i greu a rhannu adnoddau ar-lein ar gyfer y TGAU newydd, ac i ryngweithio â'i gilydd. Cafodd hyn ei gydlynu gan Ms Tonia Antoniazzi, Arweinydd Dysgu ERW ar gyfer pynciau all-graidd TGAU. Penodwyd tri phennaeth AGr o ysgolion yn rhanbarth ERW i arwain yr adain Astudiaethau Crefyddol, sef Ms Alex Roe, Ysgol Coedcae, Llanelli (yr arweinydd ar gyfer ysgolion Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin), Ms Alison Lewis, Ysgol Cefn Hengoed, Abertawe a Ms Ailee Sotero, Ysgol Dyffryn, Port Talbot. Daeth Ms Antoniazzi i gyfarfod CYSAG yn nhymor yr hydref i roi cyflwyniad ar y prosiect hwn i'r aelodau a thrafod materion a godwyd gyda nhw. Roedd yr aelodau'n croesawu'r prosiect gan eu bod yn teimlo y gallai fod yn werthfawr i ddisgyblion ac adrannau AGr Sir Gaerfyrddin.

Cafodd yr aelodau y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect gan Mrs Parry ar ddiwedd y flwyddyn. Hysbyswyd yr aelodau fod amrywiaeth helaeth o ddeunydd TGAU AGr Saesneg wedi'i lanlwytho ar wefan Hwb ERW, yn bennaf gan yr ymarferwyr arweiniol, gan gynnwys Ms Alex Roe o Ysgol Coedcae, Llanelli, a diolchodd yr aelodau iddynt am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Fodd bynnag, roedd problem o ran adnoddau cyfrwng Cymraeg. Er bod sicrwydd wedi'i roi y byddai deunyddiau yn cael eu cyfieithu, nid oedd hynny wedi digwydd mewn gwirionedd ac nid oedd fawr ddim o ddeunydd cyfrwng Cymraeg ar gael ar y wefan

pan ddechreuwyd dysgu'r fanyleb newydd ar ôl Gŵyl Banc mis Mai. Roedd yr aelodau o'r farn, o ystyried y diffyg adnoddau cyfrwng Cymraeg a gyhoeddwyd ar gyfer Astudiaethau Crefyddol, y dylai hyn fod wedi bod yn flaenoriaeth, a dylai ERW fod wedi penodi o leiaf un athro/athrawes sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel ymarferydd arweiniol. Dywedodd Mrs Parry wrth yr aelodau ei bod wedi cysylltu â GwE, rhanbarth Gogledd Cymru, am gymorth a bod Ms Mefys Jones, yr ymarferydd arweiniol TGAU ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn, wedi cynnig yn garedig iawn rannu'r adnoddau cyfrwng Cymraeg yr oeddent wedi'u creu. Roedd athrawon Sir Gaerfyrddin yn ddiolchgar iawn am hyn. Penderfynodd yr aelodau y dylai Mrs Parry gysylltu ag ERW a gofyn iddynt benodi athro/athrawes cyfrwng Cymraeg fel ymarferydd arweiniol, a hynny ar frys.

Hysbyswyd yr aelodau hefyd fod Mrs Tonia Antoniazzi wedi'i hethol yn Aelod Seneddol dros etholaeth Gŵyr yn yr Etholiad Cyffredinol ym mis Mehefin, a bod Mr Julian Nicholds wedi'i benodi i gymryd ei lle yn y swydd. Llongyfarchodd yr aelodau Ms Antoniazzi a phenderfynwyd gwahodd Mr Nicholds i fynychu cyfarfod CYSAG tymor yr hydref 2017 er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect ac i ymdrin â phryderon ynghylch deunydd cyfrwng Cymraeg.

## **Addoli ar y Cyd**

Un o swyddogaethau CYSAG yw gweithio gyda'i Awdurdod Lleol i fonitro a chynghori ar y ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd ac i wneud argymhellion ynglŷn â phenderfyniadau.

### **Cyngor ynghylch addoli ar y cyd**

Mae Ymgynghorydd Her Cysylltiol yr ALL ar gyfer AGr ac aelodau eraill o'r tîm ymgynghorol yn rhoi cyngor a chymorth yn ystod ymweliadau ysgol ac wrth ateb cwestiynau a materion a godir gan brifathrawon ac athrawon. Hefyd ceir adran yn ymwneud ag addoli ar y cyd ar Amdro, sef gwefan y sir, sy'n cynnwys dogfennaeth ddefnyddiol a dolenni cyswllt i adnoddau dwyieithog.

### **Monitro Addoli ar y Cyd – Adroddiadau Arolygiadau Estyn 2016-17**

Mae CYSAG wedi parhau i fonitro adroddiadau arolygiadau Estyn ynghylch dyfarniadau am Addoli ar y Cyd mewn ysgolion yn yr ALL. Ystyriwyd deuddeg adroddiad arolygu ar ysgolion Sir Gaerfyrddin am y cyfnod Ebrill 2016 – Mawrth 2017, a oedd yn cynnwys 10 ysgol gynradd, un ysgol uwchradd ac un ysgol anghenion arbennig ar gyfer plant ag anawsterau dysgu. Roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau yn cyfeirio at gyfraniad cadarnhaol addoli ar y cyd o ran datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys:

- Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer addoli ar y cyd yn dda ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion. Yn ystod y gwasanaethau boreol, mae'r disgyblion yn cael y cyfle i adfyfrio ac ymateb i faterion ysbrydol a moesol. Mae ymweliadau rheolaidd gan grŵp sy'n hyrwyddo gwybodaeth am y Beibl (Agor y Llyfr) yn llesol i ddatblygiad ysbrydol y disgyblion.
- Mae staff yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion ddatblygu'n llwyddiannus eu hymwybyddiaeth o agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol drwy sesiynau addoli ar y cyd rheolaidd a gweithgareddau cwricwlaidd.
- Mae gwasanaethau a baratowyd yn dda yn atgyfnerthu gwerthoedd yr ysgol yn llwyddiannus. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion adfyfrio'n briodol ar y byd o'u cwmpas.
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesegol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn atgyfnerthu gwerthoedd yn briodol ac yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol drwy gyfleoedd buddiol i adfyfrio.
- Mae disgyblion yn ymfalchïo mewn perfformio o flaen disgyblion eraill mewn gwasanaethau ysgol.

Ni thynnodd Estyn sylw at unrhyw ddiffygion neu enghreifftiau o dorri'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd.

### **Penderfyniadau**

Ni chafwyd unrhyw benderfyniad yn gofyn am i'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd gael eu datgymhwyso.

## Materion Eraill

### Aelodaeth o Gymdeithas CYSAGau Cymru

Mae CYSAG Sir Gaerfyrddin wedi parhau â'i aelodaeth o Gymdeithas CYSAGau Cymru ac mae Mrs Mary Parry, Ymgynghorydd Her Cysylltiol AGr yr ALL, wedi parhau'n aelod o'r pwyllgor gwaith. Mae cynrychiolwyr Sir Gaerfyrddin wedi cymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru, a chaiff y materion sy'n codi yn y cyfarfodydd hyn eu trafod yng nghyfarfodydd CYSAG. Mae CYSAG hefyd wedi atgyfeirio nifer o faterion i Gymdeithas CYSAGau Cymru i'w hystyried.

Cynhelir cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru bob tymor ym mhob un o 22 ALL Cymru yn eu tro ar sail rota ac ar wahoddiad yr ALL. Roedd Sir Gaerfyrddin yn falch o gynnal y cyfarfod yn ystod tymor yr hydref 2016 yn Siambr y Cyngor yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin. Rhoddodd y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor a chyn-aelod o CYSAG, araith ragarweiniol, gan groesawu aelodau Cymdeithas CYSAGau Cymru i Sir Gaerfyrddin. Canodd côr Ysgol Gynradd Llangennech, enillydd Côr Ysgol Iau y Flwyddyn 2015 cyfres *Songs of Praise*, ar y dechrau gan greu'r awyrgylch hyfryd ar gyfer y cyfarfod. Roedd y cyfarfod ei hun yn werth chweil, ac ymysg yr eitemau ar yr agenda, rhoddodd Dr Llinos Jones, Pennaeth Ysgol Gyfun Bro Myrddin, gyflwyniad ar ddarpariaeth wych ei hysgol o ran addoli ar y cyd, fel y nodwyd yn adroddiad arolygu diweddar Estyn. Roedd saith aelod o CYSAG Sir Gaerfyrddin yn bresennol yn y cyfarfod, a rhoddodd y Cynghorwyr Gwyneth Thomas a Jean Lewis gymorth o ran sicrhau bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn hwylus.

### Cynhadledd Chweched Dosbarth Sir Gaerfyrddin ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost – 27<sup>ain</sup> Ionawr 2017

Mae CYSAG wedi cefnogi prosiect 'Gwersi o Auschwitz' ers nifer o flynyddoedd ac wedi cael amryw o gyflwyniadau gan fyfyrwyr a phennaeth sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect. Roedd yr aelodau yn falch iawn o glywed bod Sir Gaerfyrddin yn bwriadu darparu cynhadledd i'r chweched dosbarth i nodi Diwrnod Cofio'r Holocost ar 27<sup>ain</sup> Ionawr 2017, ac roeddent yn awyddus i'w chefnogi. Cafodd y gynhadledd ei threfnu gan dri aelod o dîm gwella ysgolion yr ALL, sef Mary Parry, Geraint Bevan a Polly Seton.

Cynhaliwyd y gynhadledd yn Siambr y Cyngor yn Neuadd y Sir, ac daeth tua wyth myfyriwr o bob ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin sydd â chweched dosbarth. Cafwyd preliwd cerddorol gan Wasanaeth Cerdd y sir. Agorwyd y digwyddiad gan Gadeirydd y Cyngor Sir, y Cynghorydd Eryl Morgan a adfyriodd ar thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2017, 'Sut all bywyd fynd yn ei flaen?'. Rhannodd Mr Steve Perks, Pennaeth Ysgol Dyffryn Aman, ei brofiadau o'r rhaglen 'Gwersi o Auschwitz', a siaradodd gyda theimlad am ei ymweliad â'r gwerysilloedd angau a'r effaith a gafodd yr ymweliad hwn arno ef. Am 10 o'r gloch, ymunodd y myfyrwyr â gweddarllediad byw gyda 50,000 o fyfyrwyr eraill ledled y DU, i glywed tystiolaeth gan oroeswyr yr Holocost. Yn dilyn hyn, rhannodd Nia Price, un o gyn-ddisgyblion Ysgol Tre-gib, ei phrofiadau fel Llysgennad Ieuenticid Ymddiriedolaeth Cofio'r Holocost. Darparwyd gweithdai ar gyfer y myfyrwyr, a oedd yn ymdrin â 'Phortreadau gan y Cyfryngau' a 'Problemau, Dewisiadau ac Ymatebion', gan Ymddiriedolaeth yr Holocost a'r 'Education Development Trust'.



Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod y gynhadledd wedi bod yn brofiad buddiol iawn i'r myfyrwyr, ac o ganlyniad i hynny, y byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal unwaith eto y flwyddyn nesaf. Mae aelodau CYSAG sy'n cynghorwyr sir wedi gallu helpu â'r cyfleusterau yn Neuadd y Sir i sicrhau y cynhelir y digwyddiad yn hwylus y flwyddyn nesaf ac mae'r aelodau i gyd wedi'u gwahodd i'r gynhadledd.

### **'Hyrwyddo Crefydd: Hanes Mudiad Addysg Gristnogol/Grefyddol Cymru 1965-2015'**

Fe wnaeth Mudiad Addysg Gristnogol Cymru, a ailenydd yn Fudiad Addysg Grefyddol Cymru, gyfraniad sylweddol i CYSAG Dyfed a blynyddoedd cynnar CYSAG Sir Gaerfyrddin, a hefyd i Addysg Grefyddol yn ysgolion y sir. Mae'r Parchedig Aled Jones, Is-gadeirydd CYSAG, wedi ysgrifennu'r llyfr uchod, yn Gymraeg a Saesneg, ynghylch hanes y mudiad sydd bellach wedi dod i ben. Dangoswyd copi o'r llyfr i'r aelodau ac esboniodd y Parch Jones fod y llyfr yn cofnodi bywyd y mudiad a oedd yn ganolog i AGr yng Nghymru am y rhan fwyaf o'i fodolaeth. Roedd cenedlaethau o blant a phobl ifanc, yn ogystal â'u hathrawon, wedi elwa o wasanaethau'r Mudiad, ei gynlluniau arloesol a'i eiriolaeth ar eu rhan.

### **Parch Wyn Maskell**

Roedd aelodau'n falch o glywed bod Mr Wyn Maskell, clerc cofnodion blaenorol CYSAG, wedi ei ordeinio yn ddiakon yn yr Eglwys yng Nghymru. Dywedodd y Cynghorydd Jean Lewis wrth yr aelodau ei bod wedi mynychu'r gwasanaeth ordeinio yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi ar 24<sup>ain</sup> Mehefin. Estynnodd yr aelodau longyfarchiadau i'r Parch Maskell, a dymuno pob llwyddiant iddo yn ei swydd.

### **Newidiadau o ran aelodau CYSAG**

Croesawyd Mrs Wendy Jones, athrawes yn Ysgol Gynradd Tŷ-croes, i'r pwyllgor fel cynrychiolydd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (yr Undeb Addysg Cenedlaethol bellach). Mae Mrs Wendy Jones wedi cymryd lle Miss Val Davies, a ymddeolodd o addysgu ar ddiwedd tymor y Nadolig. Tynnwyd sylw'r aelodau hefyd at ddau aelod arall a oedd wedi ymddeol ar ddiwedd y tymor, sef Mrs Delyth Rees, athrawes yn Ysgol Gynradd Llandeilo a Dr Geraint Davies, aelod cyfetholedig a gynrychiolai Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Hefyd, ar ôl etholiadau'r Cyngor Sir, mae'r Cynghorydd Jan Williams bellach wedi ymddeol ac nid yw'r Cynghorydd Edward Thomas bellach yn gynrychiolydd ar CYSAG. Diolchodd yr aelodau i'r aelodau a oedd wedi ymddeol am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau at y Pwyllgor hwn dros nifer o flynyddoedd.